# Cenn@d

HYDREF 01 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 240

## Gwerth mewn Gair: Beibl William Morgan yn y Senedd

O ffermdy tawel o'r 16eg ganrif ger Penmachno i adeilad eiconig y Senedd ym Mae Caerdydd, mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn dod â'r Beibl Cyssegr-lan o Dŷ Mawr Wybrnant—man geni'r Esgob William Morgan—i gartref deddfwrfa Cymru.

Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn falch o lansio 'Gwerth mewn Gair', arddangosfa o arwyddocâd cenedlaethol fydd yn cael ei chynnal yn y Senedd rhwng 5 Medi a 30 Hydref ac sy'n dathlu iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru.

Yn ganolog i'r arddangosfa y mae'r cyfle unigryw i weld copi prin o Feibl 1588, Y Beibl Cyssegr-lan, cyfieithiad arloesol yr Esgob William Morgan, sydd fel arfer i'w weld yn Nhŷ Mawr Wybrnant, Conwy. Dyma'r cyfieithiad cyflawn cyntaf o'r ysgrythur i'r Gymraeg ac felly mae'n drysor diwylliannol ac yn allweddol yn hanes goroesiad yr iaith Gymraeg.

Mae'r arddangosfa'n tynnu sylw at Dŷ Mawr Wybrnant, man geni'r Esgob William Morgan, gan amlygu ei etifeddiaeth gyfoethog a'r dirwedd fu'n ysbrydoliaeth i'w waith.

Dywedodd Trystan Edwards, Rheolwr Cyffredinol ar gyfer Eryri, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru:

'Mae'r iaith Gymraeg yn symbol pwerus o'n hunaniaeth genedlaethol a'n treftadaeth ddiwylliannol, ac roedd cyfieithiad William Morgan yn drobwynt hanesyddol—nid yn unig o ran diogelu'r iaith, ond o ran gosod sylfeini ar gyfer hunaniaeth wleidyddol a diwylliannol Cymru. Mae ei ddylanwad yn atseinio drwy'r oesoedd ac wedi chwarae rhan bwysig yn y daith tuag at sefydlu Senedd Cymru.

'Mae arddangos y Beibl hwn yn y Senedd yn foment arwyddocaol o bwys cenedlaethol. Mae hefyd yn cynnig cyfle unigryw i rannu stori Tŷ Mawr Wybrnant ac i dynnu sylw at y garreg filltir hon





yn hanes diwylliannol Cymru gyda chynulleidfaoedd na fyddai'n gallu mynd yno eu hunain neu sydd heb glywed am ei hanes.'

Yn ogystal â Beibl 1588, mae'r arddangosfa'n cynnwys nifer o Feiblau o bob cwr o'r byd, pob un â'i stori ei hun am ffydd, iaith a balchder cenedlaethol. Fe fydd y Beibl cyntaf a ddechreuodd y casgliad arbennig hwn, sef La Sankta Biblio, a ysgrifennwyd yn Esperanto ac a gyflwynwyd yn 1981, hefyd yn rhan o'r arddangosfa yn y Senedd.

'Mae Tŷ Mawr Wybrnant bellach yn noddfa i ysgrythurau o bob cwr o'r byd, gyda chasgliad cynyddol o bron i 300 o Feiblau mewn mwy na 100 o ieithoedd. Mae'r ffermdy bychan hwn o'r 16eg ganrif yn parhau i ysbrydoli ymwelwyr â'i arwyddocâd hanesyddol a'r cysylltiad dwfn y mae'n ei feithrin.

'Yn dilyn taith gyfnewid ysgol gydag Ysgol Dolwyddelan yn 2006, rhoddodd grŵp o blant o Wlad y Basg Feibl yn eu hiaith frodorol i'r casgliad. Wedi'u hysbrydoli gan stori'r archif unigryw hon, mynegodd y plant eu dymuniad i weld eu hiaith leiafrifol hynafol—y Fasgeg—yn cael ei chynrychioli, yn union fel y Gymraeg.'

Bydd y Beibl Basgeg, 'Elizen arteko biblia', i'w weld yn y Senedd ynghyd ag 'Ibhayibheli Elingcwele' yn yr iaith iZulu ac 'Orin Dafidi' a ysgrifennwyd yn yr iaith Iorwba.

Ychwanegodd Trystan: 'Rydym yn ddiolchgar i'r Senedd ac i Janet Finch-Saunders AS am y cyfle i gynnal yr arddangosfa, a fydd yn galluogi mwy o bobl i ddysgu am y casgliad ac i gael mynediad ato.'

Ychwanegodd Janet Finch-Saunders, Aelod o'r Senedd dros Aberconwy a noddwr yr arddangosfa:

'Mae wedi bod yn fraint cefnogi gweledigaeth ysbrydoledig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ddod â'r Beibl Cyssegr-lan i'r Senedd. Dylai'r testun crefyddol nodedig hwn gael ei ddathlu, yn gwbl briodol, wrth galon ddeddfwriaethol Cymru lle mae ei ddylanwad yn parhau hyd heddiw.

'Roedd gwaith yr Esgob William Morgan yn cynnwys safoni'r Gymraeg, ac o ganlyniad mae ei ddylanwad wedi bod yn enfawr. Dros y canrifoedd, mae llawer yn haeddu clod am barhad yr iaith, gan gynnwys yr Esgob Morgan. Rwy'n hyderus y bydd y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'i gyfraniad a phwysigrwydd Beibl 1588.'

Mae 'Gwerth mewn Gair' yn cael ei arddangos yn y Senedd ym Mae Caerdydd rhwng 5 Medi a 30 Hydref 2025.

Mae mynediad i'r Senedd am ddim ac mae ar agor 9am–4.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a 10.30am–4.30pm ar ddydd Sadwrn a gwyliau banc. Mynediad olaf am 4pm; https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/arddangosfeydd/gwerth-mewn-gair/

Bws Dementia yng Nglyn Nest
Tudalen 3

Eglwysi ledled Cymru'n ymgynnull y tu allan i Senedd Cymru #GweddïoAmHeddwch yn y Dwyrain Canol Tudalen 4

Gwasanaeth Diolchgarwch
Tudalen 8

# Deg yn cael eu bedyddio yn Saron, y Creunant




Ar ddydd Sul diweddar cafwyd diwrnod na fydd byth yn cael ei anghofio yn Saron, y Creunant, wrth i ddeg o unigolion gymryd y cam o ufudd-dod i Grist drwy fedydd trochi. Roedd yr addoldy'n llawn o deuluoedd, ffrindiau a chyd-gredinwyr i dystio i'r foment arbennig hon, a'r awyrgylch yn llawn llawenydd, dagrau emosiwn a'r ymdeimlad clir fod Duw ei hun yn bresennol yn ein plith.

Y rhai a fedyddiwyd oedd: Alys, Tyler, Hector, Jamie, Kayleigh, Summer, Jazmine, Brook, James, a Cari. Roedd yn fendith arbennig gweld nid unigolion yn unig ond hefyd deuluoedd cyfan yn camu ymlaen gyda'i gilydd i dystiolaethu i'w ffydd. Roedd hyn yn atgoffa pawb fod yr Efengyl yn newyddion da nid yn unig i unigolion ond hefyd i deuluoedd cyfan, gan ddod â goleuni, adnewyddiad a gobaith newydd i gartrefi.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd tystiolaethau pwerus gan y rhai oedd ar fin mynd i'r dŵr. Rhannwyd straeon personol am gariad Duw, am brofiadau o drugaredd, ac am y ffordd y mae Crist wedi dod â newid a gobaith i'w bywydau. Roedd pob stori'n unigryw, ond roedd un neges yn gyffredin drwyddynt i gyd — sef ffydd yng Nghrist sy'n achub, yn maddau ac yn adfer.

Pan ddaeth yr amser i fynd i mewn i'r fedyddfa, roedd yr awyrgylch yn llawn disgwyl a chyffro. Gyda phob person yn dod i fyny o'r dyfroedd, codai canmoliaeth a llawenydd o'r gynulleidfa, gyda dagrau llawen yn llifo'n rhydd. Dywedodd sawl un ar ôl y gwasanaeth iddo fod yn wasanaeth hynod emosiynol a phwerus, a bod yr hyn a welwyd yn dystiolaeth fyw o nerth gras Duw i drawsnewid bywydau.

Yn y cyfarfod ar ôl y gwasanaeth, soniodd nifer o bobl sut yr oedd y digwyddiad wedi dod â chredinwyr yn nes at ei gilydd, gan gryfhau'r teimlad o gymuned a chyd-ffydd. Roedd hefyd yn annog y rhai nad oeddent eto wedi gwneud penderfyniad i ddilyn Crist i feddwl o ddifrif am y cwestiynau mawr ynghylch bywyd, ffydd a thragwyddoldeb.

Wrth edrych yn ôl ar y diwrnod arbennig hwn, ni allwn ond diolch i Dduw am ei ffyddlondeb a'i ras. Mae'n galonogol gweld deg o fywydau'n cael eu troi'n gyhoeddus at Grist, ac rydym yn credu ac yn ymddiried y bydd yr Arglwydd yn eu harwain ac yn eu cadw yn y ffordd newydd o fywyd.

'Yr hwn sydd wedi dechrau gwaith da ynoch, a'i gwblhau a wna hyd ddydd Iesu Grist.' (Philipiaid 1:6)

Parhawn i weddïo dros Alys, Tyler, Hector, Jamie, Kayleigh, Summer, Jazmine, Brook, James, a Cari — boed iddynt dyfu yn y ffydd, a dod yn dystiolaeth fyw i gariad Crist yn eu cymunedau a thu hwnt.

*W. Rhys Locke*





## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn a'r Parch. Evan Morgan, Caerdydd, a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Rosemary Morgan, Taliaris, Llandeilo. Roedd Mrs Morgan yn gyn-lywydd Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru.

# Bws Dementia yng Nglyn Nest

Ar fore dydd Mawrth cyffredin iawn yng Nghartref Gofal y Bedyddwyr, Glyn Nest, daeth Marc atom gyda'i fws (lorri fach). Ac roedd yna lawer o nerfusrwydd yn sicr ynglŷn â'r hyn oedd yn ein disgwyl yr ochr arall i'r drws, a'r rhan fwyaf ohonom erioed wedi profi unrhyw beth tebyg. Mae'r daith rithiol wedi'i chreu yn dilyn llawer o waith gwyddonol a phrofiadau dioddefwyr, yn bennaf gan arbenigwr o'r Unol Daleithiau, sef P. K. Beville.

Pwrpas y bws hwn oedd ceisio ein cael ni, fel staff, i ddeall sut beth yw byw gyda dementia. Ac yn bennaf i wneud i ni sylweddoli nad salwch anghofio yn unig yw hwn, ond llawer mwy.

Roedd Marc yn fwriadol anghwrtais wrthym ni fel staff wrth gau'r drws, nid oherwydd nad oedd yn hoffi ei swydd, ond i wneud i ni deimlo'n anghyfforddus, ac i wneud yn siŵr nad oedd gennym unrhyw syniad beth oedd yn mynd i ddigwydd nesaf. Mae hwn yn deimlad y mae dioddefwyr yn aml yn ei deimlo.

Ac yn sydyn mae ein synhwyrau'n cael eu hamddifadu fesul un. Darn o blastig pigog yn ein hesgidiau, dau bâr o fenig ar ein dwylo, sbectol â lensys brown tywyll a chlustffonau trwm ar ein clustiau, â synau cefndir bob dydd ac ambell sŵn uchel a wnaeth i mi neidio!

Gan ein harwain fesul un i'r ystafell, ceisiodd Marc roi cyfarwyddiadau syml i ni, ac fe fethon ni'n llwyr â'u dilyn.

Roeddwn i'n teimlo'n ansicr drwy gydol yr arbrawf, ond roeddwn eisiau gwneud fy ngorau i gwblhau'r dasg er na wnes i lwyddo o gwbl. Yr unig eiriau ddeallais i drwy gydol yr amser oedd 'teulu' a 'llythyr'.

Wrth fynd ati i wneud ychydig o dasgau, daeth Marc i symud y gwrthrychau o'n blaenau – blociau, llestri, papur, a dillad. Dim ond 15 munud oedd hyd y profiad; ie, fe wnaethoch chi ddarllen yn gywir – 15 munud.

Oedd hyn yn ddigon? Dydw i ddim yn gwybod, ond roedd yn sicr yn ddigon i wneud i mi deimlo'n anghyfforddus ac emosiynol iawn. Ac roedd hyn yn gwbl fwriadol.

Yn y drafodaeth a ddilynodd gyda Marc a'r holl staff, eglurodd y rhesymeg y tu ôl i'r darnau plastig yn yr esgidiau i'r clustffonau.




Ac wrth ddeall pam, esboniodd beth allwn ni ei wneud i helpu gyda'r symptomau heriol sy'n dod gyda'r cyflwr. Ailadrodd eich enw'n aml, cerdded i olwg y person cyn siarad, dangos gwên, rhoi tasgau syml, peidio â bod yn rhy siomedig os ydyn nhw'n anghofio, a dillad sy'n hawdd eu gwisgo (dim botymau!).

Ond roedd un cwestiwn yn pwyso arnaf, a chyn i mi gael cyfle i ofyn atebodd yn gywir yr hyn oedd ar fy meddwl. Sut oedden ni'n gallu deall ychydig o eiriau a ddywedodd ar y bws?

Yr ateb … cyffyrddiad.

Wrth i Marc ddal fy llaw neu roi ei law ar fy ysgwydd ar y bws, deallais yr hyn oedd ganddo i'w ddweud.

Rydw i wedi gweld hyn yn aml yn fy ngwaith fel caplan wrth eistedd gyda phobl sy'n ddryslyd neu'n drist. Does dim ots faint rydw i'n siarad, dydyn nhw ddim yn sylwi. Ond pan fydda i'n dal eu dwylo, pan fydda i'n rhoi llaw dawel ar eu braich, maen nhw'n dod yn ôl i'r ystafell fel petai. Ac rydyn ni'n llwyddo i gael sgwrs.

Mae'r cyfle hwn wedi fy atgoffa bod angen i ni gerdded yn esgidiau pobl i ddeall sut maen nhw'n teimlo. A phob tro fydda i'n camu i mewn i'r cartref, ceisio dod i mewn gydag agwedd o gariad, caredigrwydd, cyffyrddiad tyner a gwên.

*Sian Elin Thomas*

## Gweddi dros y Tir Sanctaidd

Dad grasol, daeth dy Fab bendigedig Iesu Grist o'r nefoedd i fod yn fara'r gwirionedd sy'n rhoi bywyd i'r byd:

Yn dy drugaredd, dyro fwyd i bawb yn Gaza a thu hwnt sy'n dioddef o newyn er mwyn iddynt dderbyn bara materol i fwydo eu cyrff a bara nefol i gynnal eu heneidiau.

Trwy rym dy Ysbryd, tyrd â'r rhyfel creulon hwn i ben ar frys gyda rhyddhad i'r holl garcharorion, gofal meddygol i'r clwyfedig, cysur i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid ac agor llwybr i greu heddwch cyfiawn a pharhaol yma yn y wlad lle bu dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist ei hun, yn gwasanaethu yn ystod ei fywyd daearol.

Yr hwn sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Sanctaidd, un Duw, yn awr a hyd byth.

Amen.

*Y Parchedicaf Ddr Hosam E. Naoum*
*Archesgob Anglicanaidd yn Jerwsalem*
*Awst 2025*

# Eglwysi ledled Cymru'n ymgynnull y tu allan i Senedd Cymru #GweddïoAmHeddwch yn y Dwyrain Canol




Dydd Mercher, 24 Medi 2025, daeth arweinwyr eglwysi, aelodau eglwysi a cynrychiolwyr o fudiadau dyngarol Cymorth Cristnogol, Embrace the Middle East a CAFOD yng Nghymru ynghyd y tu allan i Senedd Cymru mewn ymateb i'r argyfwng sy'n gwaethygu yn Gaza a'r Llain Orllewinol.

Ymhlith y rhai a gymerodd ran mewn cyfnod o weddi gyhoeddus y tu allan i'r Senedd yr oedd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru; Y Parchedicaf Cherry Vann, Archesgob Cymru; Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn; Elinor Wyn Reynolds, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Y Parchedig Andrew Charlesworth, cyd-Gadeirydd Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd; yr Hybarch Mones Farah, Esgobaeth Tyddewi; a Katie Lewis, Embrace the Middle East. Ar ôl y cyfnod o weddi, bu'r rhai oedd wedi ymgynnull yn cydsefyll mewn distawrwydd gan ddal Llinell Goch dros Gaza, a gwelwyd nifer o Aelodau Senedd Cymru yn ymuno hefyd.

Dywedodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: 'Rydym yn dystion i'r trais dinistriol sy'n gwaethygu yn Gaza a'r Llain Orllewinol ac mae lleisiau arweinwyr eglwysig Palestina dros undod a therfyn ar y gwrthdaro yn atseinio ar draws yr eglwysi'n fyd-eang, gan ein hannog i ymateb yn glir a chadarn a gyda thosturi.

'Credwn fod tystiolaeth Gristnogol weladwy ac unedig yn y foment hynod ddifrifol hon yn angenrheidiol – tystiolaeth sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad cytûn dros heddwch, cymod, ac urddas i holl bobl Dduw.

'Rydym yn gobeithio y bydd cynifer o eglwysi â phosibl ledled Cymru yn parhau i ymuno mewn gweddi a gweithred. Drwy sefyll gyda'n gilydd mewn undod â'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan drais ac anghyfiawnder, credwn y gallwn atgyfnerthu'r alwad am gadoediad parhaol ac uniongyrchol, rhyddhau'r gwystlon, mynediad llawn i gymorth dyngarol, ac am broses heddwch gyfiawn ac ystyrlon.'

Roedd y digwyddiad tu allan i'r Senedd yn dilyn Diwrnod Heddwch y Byd y Cenhedloedd Unedig (dydd Sul, 21 Medi) a'r alwad fyd-eang i weddi gan Gyngor Eglwysi'r Byd, yn galw ar eglwysi i weddïo ac i gydsefyll mewn tystiolaeth gyhoeddus o undod â'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y trais yn y Dwyrain Canol, gan gynnwys Cristnogion Palesteina. Trefnwyd y digwyddiadau hyn mewn cydweithrediad agos rhwng asiantaethau Cristnogol Prydeinig, gan gynnwys Cymorth Cristnogol, CAFOD, Tearfund, Embrace the Middle East, Amos Trust, Sabeel-Kairos, y Crynwyr ym Mhrydain, All We Can, Reconciling Leaders Network, Difference, Friends of the Holy Land, USPG, a'r Centre for Missionaries from the Majority World.

Ymhlith yr enwadau a'r rhwydweithiau eglwysig a ymunodd â'r alwad i weddi a thystiolaeth gyhoeddus yng Nghymru yr oedd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yr Eglwys yng Nghymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd, a Synod Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Mae Cymorth Cristnogol Cymru yn galw ar eglwysi lleol ledled Cymru i lunio Llinell Goch dros Gaza, gan fynegi ein hundod â'n cymdogion yn Gaza a galw am weithredu mwy pendant. Ynghyd â'r alwad i weddi a gweithred y Llinell Goch, mae gan Gymorth Cristnogol amrywiaeth o adnoddau i helpu eglwysi i ymuno â'r alwad am heddwch cyfiawn. Mae'r rhain yn cynnwys tri ffilm sy'n cynnwys lleisiau o Balesteina dan feddiant, ynghyd ag adnoddau i eglwysi yn Gymraeg a Saesneg, sydd ar gael drwy ymgyrch Heddwch Cyfiawn.

Anogodd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yr eglwysi i archwilio'r adnoddau Heddwch Cyfiawn newydd : 'Eleni yng Nghymru rydym yn nodi 100 mlynedd ers i'r eglwysi uno yn Apêl Heddwch Arweinwyr Eglwysi Cymru 1925 i America. Roedd yn ddatganiad dewr a chadarn yn erbyn gwrthdaro, gan danlinellu'r alwad Feiblaidd, wedi'i seilio ar ddysgeidiaeth Crist, sy'n galw ar ei ddilynwyr i fod yn wneuthurwyr heddwch unedig.

'Mae'r alwad hon i weddi a thystiolaeth, ynghyd ag adnoddau newydd Heddwch Cyfiawn Cymorth Cristnogol yn gyfle i ni gael ein harwain gan y rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ryfel a thrais yn y Dwyrain Canol heddiw. Gadewch i ni fyfyrio ar ein hymateb yn 2025 i alwad Crist sy'n ein galw i undod, cyfiawnder, tosturi ac i heddwch, gan wreiddio hynny fwyfwy yng nghymunedau ac eglwysi Cymru.'

# 100.CYMRU




Hyderwn fod Duw yn eich cadw a'ch bendithio wrth i ni gamu i dymor yr hydref. Wrth weld y tymhorau'n newid o un i'r llall cawn ein hatgoffa fod ein Duw ni yn ddigyfnewid ac yn Arglwydd dros bopeth! Rhywbeth arall sy'n newid yn wastadol yw amser, a blynyddoedd yn pasio ar garlam.

I ba genhedlaeth ydych chi'n perthyn? Ydych chi'n Boomer? Yn Millenial? Yn ôl pob sôn, mae gan bob un o'r cenedlaethau hyn ei nodweddion ei hun, pethau maen nhw'n eu hoffi/ddim yn eu hoffi, ac arferion sy'n deillio o bob math o lefydd gwahanol.

Yr enw ar genhedlaeth pobl ifanc heddiw yw Gen-Z. Beth sy'n eu nodweddu nhw? Tyfon nhw i fyny gyda'r rhyngrwyd a *smartphones*, yn gyfan gwbl ddigidol ac wedi arfer ag effeithlonrwydd llwyr. Mae'r genhedlaeth hon hefyd yn adnabyddus am ei safbwyntiau amrywiol, ei hymwybyddiaeth gynyddol o newid hinsawdd a phroblemau iechyd meddwl, ac â dull unigryw o weithio a darganfod gwybodaeth. Maen nhw'n unigryw, a'n gweddi ni yw ar i Dduw weithio mewn ffordd unigryw yn eu plith er ei ogoniant!

Rydym ni'n trefnu Noson Weddi Gen-Z yn y Bala ar 3 Hydref!

Wrth i ni glywed straeon am yr hyn y mae Duw yn ei wneud yng Nghymru, un peth yr ydym yn gynyddol argyhoeddedig ohono yw ei fod wrthi'n ennyn newyn ysbrydol ymhlith y genhedlaeth nesaf. Yr hydref diwethaf, cynhaliwyd diwrnod o addysgu, addoliad a gweddi i rai dan 25 oed, ac roedd yn hyfryd gweld y bobl ifanc a'r oedolion ifanc hyn yn gweld cymaint o angen Duw sydd ar ein cenedl.

Ein gobaith yw y bydd Noson Weddi'r Bala yn ffordd o gasglu dwsinau o bobl ifanc ar gyfer noson o eiriolaeth a chomisiwn.

Ein gweddi yw y bydd yn noson a fydd yn rhoi baich dros Gymru ar galonnau nifer o'r bobl ifanc a fydd yn bresennol.

Bydd y noson ddwyieithog hon wedi'i llunio a'i harwain gan yr ifanc, ond rydym yn awyddus iawn i gael arweinwyr hŷn dibynadwy yno i weinidogaethu i'r bobl ifanc hyn ac i ymuno â nhw.

**Byddem wrth ein bodd pe byddech yn ystyried:**

**1. gwahodd pobl dan 25 oed rydych chi'n eu hadnabod i ymuno â ni**

**2. dod â grŵp o bobl Gen-Zer o'ch eglwys/grŵp ieuenctid neu'ch ardal i'r digwyddiad.**

Byddem yn ddiolchgar iawn os gallech ledaenu'r gair ac yn enwedig petaech yn gallu dod â phobl ifanc i ymuno â ni.

Mae'r holl wybodaeth ar gael o ddilyn y ddolen isod, ynghyd â ffordd i archebu tocynnau. Mae'n ddigwyddiad rhad ac am ddim, ond mae opsiwn i dalu am wely a brecwast yng Ngholeg y Bala. Dilynwch y ddolen am fwy o fanylion

Hyderwn y bydd Duw yn defnyddio'r digwyddiad yma i herio, ysbrydoli a chyffroi'r genhedlaeth yma er ei ogoniant.

Gyda chariad,
Tîm 100 i Gymru

## Sul Diogelu

**Beth am gynnal Gwasanaeth Sul Diogelu eleni?**

Mae Sul Diogelu ar 16 TACHWEDD 2025. Neilltuwch eich gwasanaeth i gyd neu ran ohono i ddiogelu, neu dewiswch dyddiad arall!

Mae **SUL DIOGELU** yn ffordd wych o ddangos bod diogelu yn rhan o'n ffydd mewn Duw cyfiawn a chariadus, codi ymwybyddiaeth o ddiogelu a galluogi eglwysi i rannu rhywfaint o'r gwaith da y maent yn ei wneud i ofalu am bobl a'u hamddiffyn.

Hon fydd y bedwaredd flwyddyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Panel Diogelu Cydenwadol annog eglwysi i gynnwys Sul Diogelu yn eu calendr eglwysig blynyddol.

Mae Sul Diogelu yn fenter a gychwynnwyd gan Thirtyone:eight, elusen ddiogelu Gristnogol sy'n gweithio ac yn ysbrydoli eraill i 'siarad ar ran y bobl sydd heb lais', fel y dywedir yn Llyfr y Diarhebion 31:8, ffynhonnell eu henw.

Yn 2022 a 2023 cynhyrchodd y Panel wasanaeth dwyieithog a ffilm pwrpasol ei hun. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym yn falch iawn bod Thirtyone:eight wedi cynhyrchu mwy o adnoddau Cymraeg.




Y llynedd ledled y Deyrnas Unedig, cymerodd dros bum mil o eglwysi ran yn y Sul Diogelu. Eleni, gyda'ch help chi, gallwn helpu i godi ymwybyddiaeth a gwneud ein heglwysi yn lleoedd mwy diogel i bawb.

I gymryd rhan, gallwch gofrestru am ddim – https://safeguardingsunday.org. Byddwch yn derbyn canllaw ac adnoddau ar-lein i'ch helpu chi cynnal gwasanaeth cyfan, neu ran o wasanaeth, yn hawdd. Mae'n cynnwys gweddïau, nodiadau pregeth, syniadau am weithgareddau, adnoddau plant a mwy.

**Am ragor o wybodaeth? Darllenwch y cwestiynau cyffredin (Saesneg) yma**

**Neu ewch i wefan y Panel Diogelu Cydenwadol: https://panel.cymru/cy/sul-diogelu**

# Credo Nicea – Sesiwn Chwech – Gobaith yr Atgyfodiad (rhan 1)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## Prydain ac Iwerddon

**Sesiwn Chwech – Gobaith yr Atgyfodiad**

Ysgrifennwyd gan y Gwir Barchg Lusa Nsenga-Ngoy, Esgob Willesden

Esgob Willesden yw Lusa ac mae'n gwasanaethu un o'r ardaloedd mwyaf amrywiol o ran diwylliant ac ethnigrwydd yn Esgobaeth Llundain. Fe'i ganwyd yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo ac fe'i magwyd yng ngwlad Belg. Mae ganddo ddiddordeb mewn adrodd storïau ac ymroddiad i faterion cyfiawnder.

**Esgobaeth Llundain ac Eglwys Loegr**

Mae'r gymdeithas ym Mhrydain yn un ddiwylliannol gyfoethog a nodweddir gan bliwraliaeth grefyddol. Nid yw dyfnder ac ehangder yr amrywiaeth ethnig a diwylliannol hwn wedi ei wasgaru a'i gynrychioli'n gyfartal ar draws bywyd, strwythurau ac arweinyddiaeth yr eglwys. Ers deugain mlynedd, bron, cafwyd cyfres o adroddiadau gydag argymhellion parthed hyrwyddo cyfiawnder hiliol helaethach. Ymddengys mai dim ond yn awr yr ydym yn gweld ymdrech ymroddedig i wynebu a delio â'r anghyfiawnder hiliol sy'n plagio cenedl ac eglwys.

**Atgyfodiad – Gobaith**

… disgwyliwn am atgyfodiad y meirw, a bywyd y byd sydd i ddyfod.

**Darlleniad o'r Beibl – Datguddiad 7: 9–12**

9Ar ôl hyn edrychais, ac wele dyrfa fawr na allai neb ei rhifo, o bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd, yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen, wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo.
10Yr oeddent yn gweiddi â llais uchel:

> "I'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen y perthyn y waredigaeth!"

11Yr oedd yr holl angylion yn sefyll o amgylch yr orsedd a'r henuriaid a'r pedwar creadur byw, a syrthiasant ar eu hwynebau gerbron yr orsedd ac addoli Duw
12gan ddweud:

> "Amen. I'n Duw ni y bo'r mawl
> a'r gogoniant a'r doethineb a'r diolch
> a'r anrhydedd a'r gallu a'r nerth
> byth bythoedd! Amen."

**Myfyrdod**

Yng ngwanwyn 2017, achosodd hysbysfwrdd yn Pittsburgh, yr Unol Daleithiau, ddadl gyhoeddus fawr, gyda nifer o bobl yn gwrthwynebu ei neges: "Mae 'na bobl Dduon yn y dyfodol." Trwy'r gwaith celf cyhoeddus hwn, roedd yr arlunydd a'r awdur Affro-ddyfodol Alisha Wormsley yn dymuno dweud rhywbeth am y gorthrwm systematig a ddioddefodd cymunedau Duon ar draws amser a gofod, drwy ddatgan y bydd pobl Dduon yn bresennol yn y dyfodol, dyfodol lle y dychmygir, yn aml, nad ydynt yn bresennol ynddo.

Ar un olwg, datganiad ffeithiol syml yw hwn. Ac eto, mae'n ein gorfodi i enwi'n onest y rhwygiadau a'r rhaniadau yn sefyllfa bob dydd pawb ohonom, lle clywir storïau brawychus am fywydau sydd wedi dioddef gwahaniaethu a gorthrwm am fod eraill wedi tybio fod y bobl hyn o lai o werth nag eraill oherwydd eu hethnigrwydd, eu diwylliant, eu cred neu eu cast.

Y cwestiwn cyntaf a ofynnodd Duw i ddynolryw y tu allan i ardd Eden, yn ôl yr Ysgrythurau Hebreig, oedd "Ble mae dy frawd?" Os ydym mewn gwirionedd yn mynd i fyw o dan ddylanwad y cwestiwn hwn, awgrymir bod yma orchymyn i fod yn ddibynnol ar ein gilydd, i fod yn gyfrifol am les a ffyniant ein chwiorydd a'n brodyr yn Nuw. Gorchymyn ydyw yn erbyn ecsbloetio a darostwng 'yr eraill', a'u trin fel nwyddau yn unig. Nid holi am leoliad unrhyw un y mae'r cwestiwn hwn. Yn hytrach, gwahoddiad sydd yma i ad-drefnu ac ailgyfeirio ein bwriadau tuag at 'yr eraill'. Fe'n dygir gan y cwestiwn i fan lle mae'r 'eraill' nid yn unig yn rhai mae gennym gysylltiad â nhw, ond yn bobl a hawliwn fel ein pobl ni ac y cawn ninnau ein hawlio ganddynt fel eu pobl hwy. Mae'n golygu cael ein haflonyddu, a'n cymell i beidio â'u gweld fel nwyddau i'w cyfnewid ond yn hytrach fel personau i fod mewn perthynas â nhw ('*from transaction to relation*' yw'r term Saesneg). Bwriedir y cwestiwn, fel gyda hanes tŵr Babel, i ddargyfeirio ein stori ni a'i hailgyfeirio i gyfeiriad stori Duw.

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 5 Hydref - am 7.30**
***Cymuned y Garreg Las***
Ymweld â chartref Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026, gyda chanu mawl o Gapel y Bedyddwyr, Blaen-ffos

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 5 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau diolchgarwch yng nghwmni Mair Beech Williams

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 5 Hydref, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Heledd Job, Dulyn

## Penodi caplan ar gyfer pobl hŷn



Am y tro cyntaf erioed, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi penodi caplan ar gyfer pobl hŷn. Mae Sam Hodgins, sy'n byw yn Llandudno gyda'i gŵr, Tim, yn frwdfrydig dros ei swydd newydd.

Dywedodd Sam:

> Dros y blynyddoedd rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd, ond yn rhy aml rydym wedi cymryd pobl hŷn yn ganiataol. Dyma'r unigolion sydd wedi arwain a chefnogi ein heglwysi mor ffyddlon dros y degawdau. Bwriad y swydd hon yw cydnabod eu hanghenion penodol, a darparu adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth i bobl wedi ymddeol a'u gofalwyr.

Tynnodd Sam sylw at rai o'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn:

> Mae dementia yn fater sy'n effeithio ar lawer o bobl. Amcangyfrifir y bydd miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig yn byw gyda dementia erbyn 2030. Pan ystyriwn mai'r priod a'r teuluoedd sy'n aml yn brif ofalwyr, mae'r ffigur gryn dipyn yn uwch eto. Mae hyn yn golygu bod unigrwydd yn broblem enfawr. Yn aml, mae pobl yn teimlo'n unig ac wedi'u datgysylltu o'r gymuned y buont yn rhan ohoni ers blynyddoedd lawer.
>
> Yn ogystal, nid yw llawer ohonynt bellach yn gallu mynychu capel oherwydd gwendid neu am eu bod yn gofalu am bartner sy'n rhy wael i adael y tŷ. Ar ben hyn oll, mae llawer o bobl hŷn yn teimlo'u bod wedi'u cau allan o'r byd digidol sy'n rheoli cymaint o fywyd modern. Mae nifer sylweddol dros 75 oed heb ffonau clyfar na gliniaduron, ac felly ni allant gyrchu cyfrifon banc ar-lein, a changhennau banciau a swyddfeydd post lleol wedi cau neu wedi symud ymhellach i ffwrdd.

Bydd rôl a gweinidogaeth newydd Sam yn cael eu lansio mewn cynhadledd yng Nghaerdydd ar 11 Hydref. Bydd y gynhadledd – 'Gras ar gyfer Pob Tymor' – yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu pobl wrth iddynt heneiddio ac at anghenion y rhai sy'n gofalu amdanynt.

Y prif siaradwyr fydd:

- Tina English, sylfaenydd a chyfarwyddwr yr elusen Gristnogol Embracing Age, ac awdur *A Great Place to Grow Old: reimagining ministry amongst older people*
- Y Parchedig John Treharne, gweinidog Bedyddiedig sy'n gwasanaethu yn Llwynhendy, â phrofiad helaeth o weithio gyda'r genhedlaeth hŷn.

Dywedodd y Parchedig Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru: 'Rydym wrth ein bodd gyda phenodiad Sam. Yn ystod ei gwaith gyda ni dros sawl blwyddyn, mae hi wedi dangos tosturi, gwybodaeth a'r gofal bugeiliol sy'n angenrheidiol i bobl hŷn. Bydd y swydd newydd hon yn ein galluogi i ddeall yn well yr heriau sy'n eu hwynebu, a datblygu cefnogaeth fugeiliol gynaliadwy ar draws ein heglwysi.'




## Cenhadaeth, adnewyddiad a dewrder – podlediad ac adnoddau newydd ar gael

Mae podlediad diweddaraf Eglwys Bresbyteraidd Cymru newydd gael ei ryddhau! Y mis hwn rydyn ni'n ymweld â Threfaldwyn, Caerdydd a Taiwan i glywed straeon am genhadaeth, adnewyddiad a dewrder. Clywn gan y Parch. Rebecca Lalbiaksangi; Thomas Williams o Eglwys y Crwys, a thri arweinydd o Eglwys Bresbyteraidd Taiwan. Roedd pob un ohonyn nhw'n bresennol yng nghyfarfodydd y Gymanfa Gyffredinol yr haf yma yn Llandudno.

Dyma ddolen i gael mynediad at y podlediad hwn a'r gweddill sydd ar gael:

https://rss.com/podcasts/podlediad-presbyteraidd-presbyterian-podcast/



Cynrychiolwyr Eglwys Bresbyteraidd Taiwan yn y Gymanfa Gyffredinol gyda'r llywydd ar y pryd, y Parch. Aneurin Owen, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Nan Powell-Davies

Beth am gael golwg ar wefan EBC neu eu Tudalen Facebook i gael golwg ar fideos newydd 'Ein pregethwr gwadd heddiw' a hanesion eraill i ysbrydoli. Hefyd gyda golwg ar adrodd o Gymanfa Gyffredinol EBC yn Llandudno yr haf hwn, mae rhifyn 2025 o Llais y Gymanfa newydd gael ei ryddhau. Gellir darllen copi wrth ddilyn y ddolen hon:

https://www.ebcpcw.cymru/cy/latest_news/llais-y-gymanfa/

# Gwasanaeth Diolchgarwch

**Brawddegau a gweddïau agoriadol**: 'Gŵyl Diolchgarwch' (*Llyfr Gwasanaethau EBC*, t. 74)

**Emyn 130**: 'Pob peth, ymhell ac agos'

**Darllen**: Salm 8 a 'Moli'r Creawdwr' (*Cerddi Mawl*, W. Rhys Nicholas, t. 86)

**Emyn 834**: 'Tydi, yr hwn a roddaist'

**Gweddi**: 'Y Ddaear dda' (*Gweddïau a Salmau*, W. Rhys Nicholas, t. 84)

**Emyn 828**: 'Arglwydd, maddau in mor dlodaidd'

**Myfyrdod**:
Mae'r hydref wedi dod ac yn yr wythnosau nesaf yma fe gynhelir cannoedd o wasanaethau diolchgarwch ar hyd a lled ein gwlad. Ac yn sicr mae'r Ŵyl Ddiolchgarwch flynyddol yn hen arferiad ardderchog – yn gyfle i ddiolch i'r Duw mawr am ei holl ddaioni i ni a cheisio gwneud iawn am y myrdd adegau yna pan fuom mor anniolchgar a difeddwl yn cymryd ein holl fendithion yn ganiataol. Mae'n llesol cael diwrnod wedi ei neilltuo i lawenhau a diolch am ddaioni Duw tuag atom

Ac eto, petaen ni'n hollol onest, y peryg ydy ein bod ni'n anghofio'r Rhoddwr Mawr cyn gynted â'n bod ni wedi talu'n diolch, bron – ein bod ninnau, fel yr hen genedl, yn mynd i deimlo mai 'fy nerth fy hun a chryfder fy llaw a barodd i mi y cyfoeth hwn'. Mae ein cymdeithas ni'n mesur llwyddiant a hapusrwydd mewn termau ariannol a materol, a llawer yn ceisio llenwi eu bywydau â meddiannau – ac mae'r bywydau hynny'n aml yn wag!

Pan oeddwn i'n blentyn yn Nefyn ers talwm – cyn dyddiau teledu ym mhob cartref – arferai gŵr o Fôn ddod â'r 'pictiwrs' i Neuadd Fadryn bob nos Wener. Roedd cael mynd i'r pictiwrs yn uchafbwynt yr wythnos i ni'r plant. Ar wahân i'r brif ffilm – cowbois ac Indiaid fel arfer – roedd 'na gyfresi a dilyniant o wythnos i wythnos fel Batman a Robin ac Old Mother Riley!

Roedd 'na un gyfres Americanaidd ddoniol iawn yn dilyn helyntion Ma a Pa Kettle a lleng o blant hollol afreolus. Ymddangosai un olygfa ym mhob pennod yn ddi-feth – y fam anferth yn sefyll yn nrws yr hen *ranch* flêr yn taro hen driongl swnllyd. Wedyn, ymddangosai rhengoedd o blant anystywallt o ben y das, trwy dyllau yn y siediau ac o bob twll a chornel, a rhuthro i'r tŷ gan sgrechian a chwffio am le wrth y bwrdd bwyd. Yna, uwch y sgrechfeydd i gyd fe glywid llais Ma Kettle yn bloeddio 'HOLD IT' ac fe fyddai pawb yn rhewi – a Pa Kettle, dyn bychan diog, didaro, yn taflu rhyw olwg tua'r nef, yn cyffwrdd â chwr yr hen het fyddai beunydd am ei ben ac yn dweud y gras byrraf posibl: 'Much obliged'! A dyna ailddechrau ar y sgrechian a'r cwffio, a phawb yn rhuthro am y bwyd!

Doniol! Wel, ie. Mi fydden ni, hen blant Nefyn, wrth ein boddau efo castiau'r teulu doniol yma. Ond mae'n ddameg o'n cymdeithas ni. Onid dyna'r diolch rydyn ninnau'n aml iawn yn ei dalu Iddo? Rhyw brin gydnabod ein bendithion cyn rhuthro 'mlaen â'n bywydau hunanol, materol!

Mae'r Duw mawr yn haeddu mwy o ddiolch na chyffwrdd het a 'much obliged'. Mae'n haeddu mwy na diwrnod o ddiolch. Dywed yr emynydd, 'Boed **fy mywyd** oll yn ddiolch, / Dim ond diolch yw fy lle'.

Cofiaf ddarllen erthygl mewn cylchgrawn Saesneg gryn amser yn ôl bellach yn trafod y gwahaniaeth rhwng 'thanksgiving' a 'thanks living'. Nid diwrnod o ddiolch, ond byw ein diolch. Rhywbeth sy'n digwydd un waith ac sydd drosodd ydy **rhoi** diolch, ond ffordd o fyw ydy **byw** ein diolch. Mae'n golygu ymateb, gorff ac enaid, i wahoddiad Iesu Grist i'w ddilyn. Mae'n golygu ymgysegriad llwyr. Yng ngeiriau'r hen emyn plant annwyl:

> Byw fel Iesu, dilyn Iesu,
> dyma gri fy nghalon wan;
> gwneud fel Iesu, dweud fel Iesu
> fydd fy nefoedd ym mhob man.

Nid rhoi diolch un diwrnod yn unig ond **byw** ein diolch: 'Fel bo i eraill trwom ni / adnabod cariad Duw'. Amen.



**Gweddïwn**:
Ein Tad sanctaidd a thrugarog, diolch i ti am holl freintiau a bendithion bywyd ac am dy ofal tadol trosom. Mae ein llinynnau ni wedi disgyn mewn lleoedd hyfryd, tawel, diogel a thangnefeddus – mor wahanol i gymaint o'n cyd-fforddolion yn y byd yma. Fe'n bendithiwyd yn helaeth ac mor hawdd yw hi i ni roi diolch.

Eto, pâr inni gofio'r rhai nad oes iddynt ran gyfartal ym mendithion y greadigaeth a'r cynhaeaf ac sy'n ei chael yn anodd diolch – y tlawd, y newynog, y digartref, y gorthrymedig, y rhai sy'n cael eu goddiweddyd gan drychinebau a rhyfeloedd annynol, a'r rhai, fel Habacuc, a welodd eu cnydau'n methu dro ar ôl tro.

Tymhera ein diolchgarwch, Arglwydd, â phryder a chonsýrn am gyd-ddyn, ac ysbrydola ni i rannu o'n digonedd â'r sawl sy'n galw allan am gymorth. Boed i'n diolchgarwch gael ei amlygu mewn gweithredoedd ac ymgysegriad llwyrach i Ti ac i'n cyd-ddyn. Helpa ni, ein Tad, i **fyw** ein diolch.

Maddau i ni fod dy greadigaeth hardd yn cael ei rhwygo gan greulondeb a thrais. Rho i arweinwyr y gwledydd y doethineb i geisio cyfiawnder ac i arddel ffordd cymod a thangnefedd. Hyn a ofynnwn yn haeddiant Iesu Grist. Amen.

**Emyn 757**: 'I ti dymunwn fyw, O Iesu da'

**Y Fendith**

*Megan Williams*
*Porthaethwy*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu Cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau Swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
Neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau Swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru